Argraffwyd gan Wasanaethau Dylunio, Argraffu a Phost,
Prifysgol Cymru Aberystwyth

Eglwys Bresbyteraidd Cymru
Henaduriaeth Gogledd Aberteifi

# *Gwasanaeth Sefydlu*

## Y Parchedig
## Wyn Rhys Morris, BA, BD

yn weinidog ar eglwysi Gofalaeth y Garn, sef:
Babell, Dôl-y-bont; Y Garn, Bow Street;
Gerlan, Y Borth; Madog, Capel Madog; Nasareth,
Tal-y-bont; Rehoboth, Taliesin; Seion, Capel Seion

nos Wener, 25 Mai 2007
yng Nghapel y Garn
am 6 o'r gloch

*Siars i'r Eglwysi* Y Parchedig Eric Greene

*Gweddi ar ran Eglwysi'r Ofalaeth* Y Parchedig R. W. Jones

*Ymateb y Gweinidog* Y Parchedig Wyn Rhys Morris

*Emyn* Ms Mared Hughes, Madog

Tôn: Pantyfedwen

Tydi a wnaeth y wyrth, O Grist, Fab Duw,
tydi a roddaist imi flas ar fyw:
fe gydiaist ynof drwy dy Ysbryd Glân,
ni allaf tra bwyf byw ond canu'r gân;
'rwyf heddiw'n gweld yr harddwch sy'n parhau,
'rwy'n teimlo'r ddwyfol ias sy'n bywiocáu;
mae'r Halelwia yn fy enaid i,
a rhoddaf, Iesu, fy mawrhad i ti.

Tydi yw haul fy nydd, O Grist y groes,
yr wyt yn harddu holl orwelion f'oes;
lle'r oedd cysgodion nos mae llif y wawr,
lle'r oeddwn gynt yn ddall 'rwy'n gweld yn awr;
mae golau imi yn dy Berson hael,
penllanw fy ngorfoledd yw dy gael;
mae'r Halelwia yn fy enaid i,
a rhoddaf, Iesu, fy mawrhad i ti.

Tydi sy'n haeddu'r clod, ddihalog Un,
mae ystyr bywyd ynot ti dy hun;
yr wyt yn llanw'r gwacter drwy dy air,
daw'r pell yn agos ynot, O Fab Mair;
mae melodïau'r cread er dy fwyn,
mi welaf dy ogoniant ar bob twyn,
mae'r Halelwia yn fy enaid i,
a rhoddaf, Iesu, fy mawrhad i ti.

W. Rhys Nicholas

*Y Fendith* Y Parchedig John Livingstone



**Y Parchedig Wyn Rhys Morris, BA, BD**

## *Trefn y Gwasanaeth*

*Llywydd* Y Parchedig Pryderi Llwyd Jones,
Llywydd yr Henaduriaeth

*Organyddes* Llio Penri

*Gweddi Agoriadol* Y Llywydd

*Emyn* Mrs Edna Thomas, Rehoboth

Tôn: Tal-y-llyn

O Dduw, ein craig a'n noddfa,
rho nawdd i'r gwan a'r tlawd
er mwyn dy annwyl Iesu
a anwyd inni'n Frawd;
darostwng bob gormeswr
sy'n mathru hawliau dyn,
ac achub y trueiniaid
a grewyd ar dy lun.

Creawdwr cyrrau'r ddaear,
Tad holl genhedloedd byd,
cymoda di â'th gariad
deyrnasoedd dyn ynghyd;
gwasgara'r rhai rhyfelgar
sy'n hoffi trin y cledd,
a boed i fwyn frawdgarwch
gyfannu'r byd mewn hedd.

O Dduw, fy Ngheidwad innau,
rho d'Ysbryd imi nawr
yn ysbryd o wasanaeth
yng ngrym dy gariad mawr;
ti feddyg clwyfau dynion,
rho imi ddwyn y groes,
a llwyr gysegru 'mywyd
i leddfu dynol loes.

D. Miall Edwards

*Emyn* Mrs Llinos Evans, Babell

Tôn: Converse

Cofiwn am gomisiwn Iesu
cyn ei fyned at y Tad:
"Ewch, pregethwch yr Efengyl,
gwnewch ddisgyblion ymhob gwlad."
Deil yr Iesu eto i alw
yn ein dyddiau ninnau nawr;
ef sy'n codi ac yn anfon
gweithwyr i'w gynhaeaf mawr.

Cofiwn am addewid Iesu
adeg ei ddyrchafael ef:
"Byddaf gyda chwi'n wastadol
pan ddaw arnoch nerth o'r nef."
Daeth ei Ysbryd Glân fel golau
anorchfygol newydd wawr,
gan aeddfedu gwedd y meysydd
erbyn y cynhaeaf mawr.

Cofiwn heddiw mewn cywilydd
am fod drain ac efrau'n bla
yn dolurio wyneb daear
ac yn tagu'r tyfiant da:
ond mae gwaith yr Iesu'n allu
mwy na phechod dua'r llawr;
ein hanrhydedd ydyw arddel
meistr y cynhaeaf mawr.

John Roberts

### *Croesawu'r Gweinidog*

*Ar ran Eglwysi'r Ofalaeth* Yr Arglwydd Elystan-Morgan

*Ar ran yr Henaduriaeth* Mr Glyn T. Jones

*Ar ran Eglwysi'r Cylch* Y Parchedig Richard H. Lewis

*Cymer y Llywydd ddeheulaw'r Gweinidog a dweud*:

Yn enw'r Arglwydd Iesu Grist, Bugail mawr y defaid, a thrwy awdurdod Henaduriaeth Gogledd Aberteifi yn Eglwys Bresbyteraidd Cymru, yr wyf yn dy sefydlu di, **Wyn Rhys Morris**, yn Weinidog i'r ofalaeth hon, ac ar ran y Cyfundeb yn cyflwyno i'th ofal ei holl aelodau a'u plant a'r neb sydd yn gysylltiedig â hi, ac ar yr un pryd yn dy gyflwyno di i ras a thrugaredd Duw, yr Hwn yn unig a all ein gwneud yn ddigonol i'r pethau hyn.

Gwylia di ym mhob peth;
dioddef adfyd;
gwna waith efengylwr;
cyflawna dy weinidogaeth.

Bendithied yr Arglwydd di a chadwed di;
a llewyrched yr Arglwydd ei wyneb arnat a
thrugarhaed wrthyt;
dyrchafed yr Arglwydd ei wyneb arnat,
a rhodded i ti dangnefedd. Amen.

***A dywed yr holl gynulleidfa*, Amen.**

***Eistedded y gynulleidfa.***

*Gweddi ar ran y Gweinidog* Y Parchedig Trefor Lewis

*Darllen o'r Ysgrythur* Dr Maredudd ap Huw, Seion

*Gweddi* Y Parchedig W. J. Edwards

*Eitem gan Blant yr Ofalaeth*

*Emyn* Miss Nia Evans, Nasareth

Tôn: Port Penrhyn

Arglwydd Iesu, llanw d'Eglwys
â'th Lân Ysbryd di dy hun
fel y gwasanaetho'r nefoedd
drwy roi'i llaw i achub dyn;
dysg i'w llygaid allu canfod,
dan drueni dyn, ei fri;
dysg i'w dwylo estyn iddo
win ac olew Calfari.

Llifed cariad pen Calfaria
drwy dy Eglwys ato ef;
a'th diriondeb di dy hunan
glywo'r truan yn ei llef;
dysg hi i ofni byw yn esmwyth
gan anghofio'r byd a'i loes,
nertha hi i dosturio wrtho
a rhoi'i hysgwydd dan ei groes.

W. Pari Huws

***Cyflwyno'r Gweinidog***

*Ar ran Eglwysi Gofalaeth Dosbarth Llanfynydd*

Mr Lloyd Thomas

*Ar ran Henaduriaeth Gogledd Myrddin*

Mr Mel Morgans

***Y Sefydlu o dan ofal y Llywydd***

*Datganiad gan y Llywydd o bwrpas y gwasanaeth*:

Cyfarfyddwn yma fel cynrychiolwyr Henaduriaeth Gogledd Aberteifi yn Eglwys Bresbyteraidd Cymru ynghyd ag eglwysi yr Ofalaeth hon i sefydlu **Wyn Rhys Morris** yn Weinidog iddynt, a gosod arno'r cyfrifoldeb o gyflawni ei swydd sanctaidd ymhlith y bobl a'i galwodd i'w gwasanaethu yn yr Efengyl.

***Y Llywydd i alw y Gweinidog ato, a galw ar holl aelodau'r Henaduriaeth i sefyll.***

*Gofyn y Llywydd i Ysgrifennydd yr Henaduriaeth dystio i reoleidd-dra'r alwad.*

*Etyb yntau*: Y mae galwad yr Ofalaeth hon i **Wyn Rhys Morris** i fod yn Weinidog iddi yn hollol unol â rheolau'r Corff a chadarnhawyd hi gan yr Henaduriaeth.

***Y Llywydd yn galw ar aelodau eglwysi'r Ofalaeth i sefyll yn dystion iddynt ei alw i fod yn Weinidog iddynt yn yr Arglwydd.***

*Yna gofyn y Llywydd i'r Gweinidog*: A ydych yn cydnabod dderbyn ohonoch yr alwad hon ac a ydych yn cydsynio â hi?

**Ydwyf**

***Y Llywydd yn gofyn i'r gynulleidfa i sefyll.***

*Gofyn y Llywydd y cwestiynau a ganlyn i'r gweinidog*:

(i) A ydych yn addo ymroi i bregethu Efengyl Iesu Grist yn ei chyfoeth a'i phurdeb i bobl eich gofal?

(ii) A ydych yn addo gweinyddu'r Sacramentau gyda phob parchedig ofn?

(iii) A ydych yn addo cyfrannu addysg grefyddol a gwneud pob darpariaeth hyd y mae ynoch, ar gyfer noddi ac adeiladu yn y Ffydd, y bobl a gyflwynir i'ch gofal?

(iv) A ydych yn addo ymweld â'r trallodus a berthyn i'r Ofalaeth hon ynghyd â'r rhai a esgeulusa foddion gras?

(v) A ydych yn addo tystiolaethu i'r Efengyl mewn gair a gweithred i'r rhai sydd y tu allan i'r Eglwys?

*Y Gweinidog i roi ateb i bob un o'r cwestiynau hyn ar wahân*:

**Ydwyf**